| CYNLLUN IAITH GYMRAEG<br><br>Cyngor Cymuned Cilybebyll | | Cilybebyll Community Council<br><br>WELSH LANGUAGE SCHEME |
|---|---|---|
| Mae Cyngor Cymuned Cilybebyll wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghilybebyll, Yr Alltwen, Rhos a Fforest Goch. | **1** | Cilybebyll Community Council has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales it will treat Welsh and English on a basis of equality. This scheme sets out how the Council will implement that principle in the provision of services to the public in Cilybebyll, Alltwen, Rhos and Fforest Goch. |
| Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef. | **2** | The Council recognises that members of the public can express their views and needs better in their preferred language, that enabling them to use their preferred language is a matter of good practice rather than a concession and that the denial of that right could place members of the public at a real disadvantage. The Council will therefore offer the public the right to choose which language to use in dealings with the Council. |
| Nod y Cyngor mewn perthynas â'r Cynllun hwn yw:<br><br>○ galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.<br>○ hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.<br>○ annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | **3** | In relation to this Scheme, the Council aims:<br><br>○ to enable everyone who receives or uses the Council's services or contributes to the democratic process to do so through the medium of Welsh or English, according to personal choice.<br>○ to encourage the use of the Welsh language in the community.<br>○ to encourage others to use the Welsh language in the community. |
| Ymhlith prif ddyletswyddau'r Cyngor mae:<br><br>○ cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus;<br>○ ystyried materion cynllunio;<br>○ awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd;<br>○ cydweithio â'r heddlu i ddiogelu'r gymuned;<br>○ darparu goleuadau Nadolig yn flynyddol;<br>○ rhoi cymorth ariannol i nifer o fudiadau gwirfoddol ac elusennol; | **4** | Amongst the Council's main duties are:<br><br>○ maintain public footpaths;<br>○ consider planning matters;<br>○ suggest improvements regarding highways;<br>○ work with the police to safeguard the community;<br>○ provide Christmas lights every year;<br>○ provide financial assistance for various voluntary organisations and charities; |

| | | |
|---|---|---|
| • gofalu am seddau eistedd a byrddau arddangos cyhoeddus;<br>• penodi cynrychiolwyr ar nifer o gyrff lleol ac allanol. | | • look after public seating and notice boards;<br>• appoint representatives to numerous local and outside bodies. |
| Mae gan y Cyngor 15 o aelodau etholedig, ac mae'r Clerc yn gweithio rhan amser.<br><br>Mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal. Mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol gan ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safonau byw yn yr ardal. | **5** | The Council has 15 elected members, and the Clerk works part time.<br><br>There are a number of social, cultural and community groups that play a prominent part in the life of the community. The Council is working to promote community development and social activities and respond to local needs to improve the living standards in the area. |
| **Polisïau a mentrau** | **6** | **Policies and initiatives** |
| Wrth lunio neu ystyried polisïau a mentrau newydd, bydd y Cyngor yn:<br>• asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith;<br>• hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw;<br>• ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Comisiynydd ymlaen llaw;<br>• sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;<br>• sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith. | | In devising new policies and initiatives the Council will:<br><br>• assess their linguistic effect and ensure that they are consistent with the Welsh Language Scheme;<br>• promote and facilitate the use of Welsh wherever possible and will move closer to implementing the principle of equality fully at every opportunity;<br>• consult with the Welsh Language Commissioner in advance regarding proposals that will affect the scheme, or the scheme of any other public body. The scheme will not be altered without the Commissioner's agreement;<br>• ensure that those involved in formulating policy will be aware of the Scheme, and of the Council's responsibilities under the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011;<br>• ensure that the measures contained in the Scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented. |
| • Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion dwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopau ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur | | • When the Council is consulted on planning applications, the Council will encourage applicants to erect signs bilingually in locations such as offices, businesses and shops and supermarkets by referring to the linguistic |

| | | |
|---|---|---|
| ieithyddol yr ardal.<br><br>• Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio enwau Cymraeg. | | nature of the area.<br><br>• When the Council is consulted on the naming of streets, developments and new estates, the Council will support the use of Welsh names. |
| • Lle mai dim ond mân wahaniaeth sydd rhwng y sillafiad Cymraeg â'r Saesneg o enw lle, stryd, ward, neu gymuned bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg. | | • Where only minor differences exist between the Welsh and English spelling of place, street, ward, or community names, the Council will support the adoption of the Welsh version. |
| **Safonau ansawdd** | **7** | **Standards of quality** |
| • Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith lle'n bosib. | | • Services provided in English or Welsh will be of an equally high standard and equally prompt where possible. |
| **Ymdrin â'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg** | **8** | **Dealing with the Welsh-speaking public** |
| **Gohebu ysgrifenedig (post ac e-bost)**<br>• Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.<br><br>• Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.<br><br>• Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn Gymraeg.<br><br>• Bydd gohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg, er mae'n bosibl na chynhaliwyd y drafodaeth yn y Gymraeg.<br><br>• Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny'n hysbys. | | **Written communication (mail and e-mail)**<br><br>• The Council will welcome correspondence in either English or Welsh.<br><br>• Correspondence through the medium of Welsh will not in itself lead to any delay.<br><br>• Every letter received in Welsh will be answered in Welsh.<br><br>• All correspondence following a telephone or face-to-face conversation in Welsh or a meeting where it was established that Welsh is the preferred language of the person, although the discussion may not have been held through the medium of Welsh, will be in Welsh.<br><br>• All correspondence with a member of the public will be initiated in his/her preferred language if known. |
| • Os nad yw dewis iaith yn hysbys, bydd gohebiaeth ddechreuol y Cyngor yn ddwyieithog lle'n bosib.<br><br>• Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn | | • If language choice is not known initial correspondence from the Council will be bilingual wherever possible.<br><br>• All circular or standard letters to the public will be |

| | | |
|---|---|---|
| ddwyieithog.<br><br>• Ble'n berthnasol, bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiadau yn y ddwy iaith yn ei gwneud hi'n glir y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. | | bilingual.<br><br>• Where relevant, the Council's official headed paper will include a statement in both languages making it clear that correspondence is welcome in either Welsh or English. |
| **Cyfathrebu dros y ffôn** | **9** | **Telephone calls** |
| • Bydd y Clerc yn gweithio o'i chartref a bydd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. | | • The Clerk works from home and welcomes telephone calls in Welsh. |
| • Pan ddaw swydd y Clerc yn wag bydd y Cyngor yn ei hysbysebu gan nodi fod sgiliau dwyieithog yn ddymunol er mwyn i'r Cyngor allu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. | | • When the Clerk's post becomes vacant it will be advertised confirming that bilingual skills will be desirable so that the Council can offer a bilingual service to the public. |
| **Cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor** | **10** | **Public meetings organised by or on behalf of the Council** |
| • Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod. | | • Contributions are welcomed in either Welsh or English at public meetings held by the Council. This will be stated clearly in the notices that inform or publicise the meeting. |
| • Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynullir i drafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, treth y Cyngor neu wybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog. | | • Any public meeting that is held to discuss the Welsh Language, Welsh medium education, Council Tax or any information regarding local elections/by-elections will be bilingual. |
| • Bydd pob cyhoeddusrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog. | | • All publicity for public meetings will be bilingual. |
| • Os yw'n hysbys ar gychwyn y cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg. | | • If it is evident at the beginning of a meeting that all those present speak Welsh, the meeting will be held in Welsh. |
| • Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg, yn ôl y galw, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor. | | • The Council will provide translation facilities for non Welsh-speakers, according to need, for public meetings arranged by or on behalf of the Council. |
| • Pan fo'n hysbys i'r Cyngor fod aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus fyddai fel arall yn uniaith Saesneg, dylid parchu hynny trwy wneud y trefniadau cyfieithu priodol. | | • When the Council is aware that a member of the public wishes to speak Welsh in a public meeting that would otherwise be conducted in English, this should be respected by providing appropriate translation |

| | | |
|---|---|---|
| | | arrangements. |
| ○ Wrth gychwyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw mynychwyr at wasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fo ar gael. | | ○ At the start of the meeting, the Chair shall draw attendees'attention to interpretation services when available. |
| ○ Bydd rhai Aelod/au neu siaradwr/wyr allweddol yn gwneud defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor. | | ○ Some Member/s or key speaker/s will use Welsh in public meetings arranged by or on behalf of the Council. |
| ○ Bydd pob swyddog yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg. | | ○ Every staff member will present at public meetings to welcome the public and to deal with enquiries, questions or comments in Welsh. |
| ○ Bydd o leiaf un swyddog neu aelod etholedig yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg. | | ○ At least one staff member or Elected Member will be present at public meetings to welcome the public and to deal with enquiries, questions or comments in Welsh. |
| ○ Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni neu sleidiau sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus sy'n trafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, treth y Cyngor neu wybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog. | | ○ Any written materials such as leaflets or acetates that are used in public meetings about the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax or information about local elections/by-elections will be bilingual. |
| **Cyfarfod arferol y Cyngor** | **11** | **Ordinary Council meetings** |
| ○ Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. | | ○ The Council's meetings are conducted bilingually. |
| ○ Bydd pob hysbysiad o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog. | | ○ The notice for the Council's meetings will be bilingual. |
| ○ Bydd y cofnodion yn ddwyieithog pan ofynnwyd amdano. | | ○ The minutes will be bilingual on request. |
| **Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd** | **12** | **Face-to-Face meetings with the public** |
| ○ **Pan fo Clerc ac Aelodau yn ddwyieithog,** bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn y Gymraeg gyda'r Clerc. | | ○ **When the Clerk and Members are bilingual,** the Council will welcome meetings with the public in either Welsh or English, and will ensure that appropriate arrangements are taken to enable any member of the public to discuss matters with the Clerk in Welsh should they wish to do so. |
| ○ **Pan nad yw'r Clerc yn ddwyieithog, ond o leiaf rhai** | | ○ **When the Clerk does not speak Welsh, but at least** |

| | | |
|---|---|---|
| **o'r aelodau yn ddwyieithog ac yn barod i gyfarfod ag aelod o'r cyhoedd sydd eisiau trafod yn Gymraeg,** bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y Clerc yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd eisiau trafod materion yn y Gymraeg i wneud hynny gydag aelod dwyieithog o'r Cyngor. | | **some Members are bilingual and are willing to meet with members of the public who wish to discuss matters in Welsh**, the Council welcomes meetings with the public in either Welsh or English, and the Clerk will ensure that appropriate arrangements are taken to enable any member of the public who wishes to discuss matters in Welsh to do so with a bilingual Member of the Council. |
| ○ **Pan na all y Clerc na'r Aelodau siarad Cymraeg** nid yw'r Cyngor yn gallu cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd yn Gymraeg. Er hynny, pan fo aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â'r Cyngor yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y Clerc yn esbonio'r sefyllfa yn garedig a chynnig y cyfle i'r unigolyn i drafod y mater yn Saesneg neu anfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg. | | ○ **When the Clerk and Members don't speak Welsh**, the Council cannot provide face-to-face meetings with members of the public in Welsh. However when a member of the public contacts the Council wishing to speak Welsh, the Clerk will politely explain the situation and offer the individual the opportunity to discuss the matter in English or send in their enquiry in written form in Welsh. |
| **Gwefan a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol** | **13** | **Websites and social media sites** |
| ○ Bydd cyhoeddiadau a wneir ar ran y Cyngor ar y we yn Gymraeg neu'n Gymraeg a Saesneg lle'n bosib. | | ○ Announcements made on the internet on behalf of the Council will be in Welsh and English wherever possible. |
| **Hunaniaeth gorfforaethol** | **14** | **Corporate identity** |
| Bydd enw'r Cyngor yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. | | The Council's name is to be in Welsh or Welsh and English. |
| **Arwyddion swyddfa'r Cyngor** | **15** | **Council Office signage** |
| ○ Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr â'r fersiwn Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. | | ○ All new information signs or those replacing previous signs on Council property will be bilingual, as will any other public information signs for which the Council is responsible. The two languages will appear side by side, with the Welsh version appearing to the left or above the English. The size, quality, legibility and prominence of text will be equal in Welsh and English. |
| **Llunio a chyhoeddi deunyddiau cyhoeddus** | **16** | **Producing and publishing public documents** |
| ○ Bydd deunydd a anelir at y cyhoedd megis dogfennau, a deunydd esboniadol sy'n ymwneud yn benodol â'r | | ○ Publications aimed at the public, such as documents and explanatory material dealing with the Welsh language, |

| | | |
|---|---|---|
| Gymraeg neu addysg Gymraeg, Treth y Cyngor, gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un dogfen lle'n bosib. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith. | | Welsh medium education, Council tax, information about local elections/by-elections and grants forms will be bilingual with both language versions forming one document where possible. The versions will be printed side-by-side where possible to facilitate easy cross-reference, distribution and offer language choice. |
| ○ Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael. | | ○ If Welsh and English versions are published separately they will appear simultaneously, be distributed together and be equally accessible. |
| ○ Bydd materion hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. | | ○ All Advertising and publicity activities will be bilingual. |
| ○ Bydd hysbysebion a hysbysiadau y Cyngor, - i'w gosod yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, yn ddwyieithog. | | ○ Council advertisements and notices – to be placed in the press, on notice boards or any other medium will be bilingual. |
| ○ Bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg gyda throednodyn yn Saesneg. | | ○ Job advertisements will appear bilingually in English/bilingual publications and in Welsh only in Welsh language publications with a footnote in English. |
| **Gwobrwyo grantiau a chymorth ariannol** | **17** | **Awarding grants and financial assistance** |
| ○ Bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd am y menter iaith lleol all ddarparu cyngor a chymorth ymarferol ynglŷn â chynnwys dwyieithog y gweithgaredd, gan gynnwys gwybodaeth ar unrhyw grantiau sydd ar gael at y pwrpas hwn. | | ○ The Council will notify the applicant that the local menter iaith can provide advice and practical assistance in relation to the bilingual content of the activity, including information on grants available for this purpose. |
| **Gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti** | **18** | **Services provided by a third party** |
| ○ Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd bartïon i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel a amlinellwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn nodi pa fesurau perthnasol o'r Cynllun y bydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebau tendro neu gontract. | | ○ Any arrangements made by the Council to use a third party to deliver services to the public on its behalf will comply with the specific requirements in the Scheme as outlined by the Council. The Council will outline which relevant measures in the Scheme the third party will have to adhere to within the tendering or contract specifications. |
| ○ Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o'r Cynllun trwy | | ○ The Third party will need to confirm that it has complied with the relevant aspects of the Scheme by submitting |

| | | |
|---|---|---|
| gyflwyno tystiolaeth. | | evidence. |
| **Trefniadau gweinyddol a monitro** | **19** | **Administrative arrangements and monitoring** |
| ○ Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor. | | ○ This scheme has the full support of the Council. |
| ○ Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. | | ○ The Clerk will be responsible for implementing the Scheme on a day-to-day basis within the Council. |
| ○ Yn ôl y galw bydd y Clerc yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun. | | ○ According to need, the Clerk will ensure that guidelines and instructions will be available to all who are involved in the implementation of the scheme. |
| ○ Clerc y Cyngor ac un Aelod fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun. | | ○ Responsibility for monitoring the Scheme will rest with the Clerk of the Council and one member. |
| ○ Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn rheolaidd. | | ○ The Council will publicise the Scheme regularly. |
| **Cwynion** | **20** | **Complaints** |
| Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i sylw:<br><br>Nia Parr-Williams, Clerc y Cyngor<br>c/o 6 Llys Ynysgeinon, Godre'r Graig, Abertawe SA9 2BJ<br>cilybebyllcc@gmail.com<br>07368 393764 | | Any comments, complaints or suggestions regarding the Scheme should be addressed to:<br><br>Nia Parr-Williams, Clerk of the Council<br>c/o 6 Llys Ynysgeinon, Godre'r Graig, Swansea SA9 2BJ<br>cilybebyllcc@gmail.com<br>07368 393764 |
| **Adolygu** | **21** | **Review** |
| Bydd y Cyngor yn adolygu cynnwys y Cynllun hwn pob 3 blynedd. | | The Council shall review the contents of this Scheme every 3 years. |